



Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

Cofnodion

Teitl y cyfarfod: Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF)

Lleoliad: Cyfarfod Microsoft Teams

Dyddiad y cyfarfod: 13 Mawrth 2023

Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Ceri Davies, CNC

Ruth Jenkins, CNC

David Letellier, CNC

Huwel Manley, CNC

Lee Pritchard, CFFI Cymru

Bernard Griffiths, FUW

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

John Browne, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Tim Kirk, Confor

Fraser McAuley, CLA

Ieuan Davies, CNC

Hefyd yn bresennol:

Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC

Kate Collins, CNC (Eitem 3)

Sarah Wood, CNC (Eitem 3)

Liz Halliwell, CNC (Eitem 3)

Russell De'Ath (Eitem 4)

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Martyn Evans, CNC

Anthony Geddes, Confor

Fraser McAuley, CLA

Eitem cyn agenda

1. Cyhoeddodd Ruth Jenkins, CNC mai dyma gyfarfod olaf Zoe Henderson fel Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm). Diolchodd iddi o waelod calon. Ar ran pawb, diolch am eich holl waith caled a'ch ymroddiad wrth arwain y grŵp hwn. Mae Zoe wedi bod yn rhan o'r fforwm hwn ers 2016, a chymerodd yr awenau fel Cadeirydd yn 2017 gan ddod â phawb ynghyd bob pedwar mis, yn bersonol ac yn rhithwir. Rydyn ni i gyd wedi wynebu sawl her ar hyd y blynyddoedd ond wedi'u goresgyn gyda'n gilydd ac wedi cael ein cefnogi gan arweinyddiaeth a gwybodaeth Zoe am y sectorau a'i chred yng ngwerth pobl yn cydweithio. Mae Zoe wedi'n herio ni pan fo'r angen a'n hannog i ddod o hyd i atebion, yn lle canolbwyntio'n unig ar y problemau sy'n wynebu rheolwyr tir a'r amgylchedd. Cafodd y Fforwm ei daro gan gyfnod clo sydyn, ond llwyddwyd i oresgyn hynny gyda Zoe'n parhau â'r cyfarfodydd ar-lein. Mae Zoe yn llefarydd brwd dros faterion rheoli tir ac mae wedi darparu llais ac wedi cydnabod arferion da a'r heriau. Bydd yr holl waith hwnnw'n parhau, ond mae Zoe wedi gadael gwaddol a hanner. Diolchodd Ruth yn bersonol i Zoe am reoli'r grŵp, yn enwedig ei hangerdd a'i chefnogaeth yn y maes hwn. Mae Zoe wedi darparu cefnogaeth sylweddol i unigolion yn y grŵp a bob amser wedi caniatáu amser ar gyfer trafodaethau ar wahân i wneud yn siŵr ein bod ni'n cael y gorau o'r amser cyfyngedig yn ystod y cyfarfodydd hyn. Bu'r Fforwm yn blatfform i rannu dealltwriaeth a chyfnewid gwybodaeth ac mae Zoe wedi ein galluogi i weithio ar y cyd a gwneud byd o wahaniaeth. Dywedodd Ruth fod y Fforwm wedi mynd o nerth i nerth dan arweinyddiaeth Zoe a bydd gan y Cadeirydd newydd esgidiau enfawr i'w llenwi, er o bosib yn hapus i Zoe gadw ei choron fel 'Brenhines y Slyri'. Dywedodd Ruth y bydd ein llwybrau'n croesi yn y dyfodol, heb os, felly nid hwyl fawr yw hon, ond ffarwel a diolch fil.

2. Diolchodd Ceri Davies, CNC i Zoe am hybu'r Fforwm a gwaith da y grŵp hwn. Diolch i frwdfrydedd ac ymrwymiad Zoe, mae eitem sefydlog ar agenda Bwrdd CNC ar gyfer cael adborth gan y Fforwm - sydd wedi helpu i fraenaru'r tir i fforymau eraill rannu gwybodaeth hefyd am y gwaith pwysig sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill. Mae Zoe wastad wedi codi'r materion rydym wedi bod yn gweithio arnynt ac wedi'n herio fel sefydliad hefyd. Mae Zoe wedi helpu i godi'r proffil mewn ffordd gadarnhaol ac wedi annog pobl i weithio gyda'i gilydd i gyflawni pethau gwych. Soniodd Ceri am rai o lwyddiannau Zoe fel Cadeirydd y Fforwm dros y blynyddoedd a diolchodd iddi am ei hamser a'i hymroddiad personol.
3. Diolchodd Zoe i'r grŵp gan ddweud ei bod wedi mwynhau cadeirio'r Fforwm yn fawr. Mae'r fforwm hwn mor hollbwysig, ac os na fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd, ni fydd gennym amaethyddiaeth ac amgylchedd ffyniannus yma yng Nghymru. Diolchodd Zoe hefyd i'r grŵp am y blodau hardd a gyrhaeddodd dros y penwythnos.
4. Diolchodd Hedd Pugh, NFU Cymru i Zoe ar ran NFU Cymru am ei gwaith caled ar hyd y blynyddoedd - bu'n bleser gweithio gyda hi. Mae Zoe bob amser wedi gwrandao pan fydd y gymuned ffermio yn rhannu barn, ac wedi sicrhau llais iddynt.
5. Hoffai Zoe ddiolch i bawb sydd wedi ei chefnogi, yn enwedig Marc a Bronwen ond hefyd y rheini sydd wedi gadael CNC yn y cyfamser fel Brian, Bob a Helen. Dywedodd Zoe eu bod i gyd wedi gwneud gwaith anhygoel yn ei chefnogi hi a'r fforwm.
6. Estynnodd Zoe groeso i'r Athro Rhys Jones, Cadeirydd nesa'r Fforwm. Mae Rhys yn dod o Brifysgol Aberystwyth, ac yn ymddiddori yn ucheldiroedd Cymru. Mae ganddo'r wybodaeth a'r arbenigedd a fydd yn helpu'r grŵp hwn i symud ymlaen. Dywedodd Rhys ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r aelodau ac adeiladu ar waddol Zoe, bydd yn gamp anodd i'w dilyn, ond bydd yn gwneud ei orau glas i dynnu pawb at ei gilydd i ystyried materion rheoli tir yng Nghymru yn yr un ysbryd o gydweithio a chydag agwedd adeiladol.

Eitem 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

7. Croesawodd Zoe Henderson (Cadeirydd y Fforwm) bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau.
8. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda.
9. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn nodi'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.

Eitem 2 Cofnodion, camau gweithredu a materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf

10. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol, byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y Grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru bod gair ar goll o ail baragraff pwynt 65 ac y byddai'n cysylltu â Bronwen wedi'r cyfarfod i egluro. Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod gwir.

11. Adolygodd y grŵp y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau a chafwyd diweddariadau. Nodwyd y canlynol:

- PG01 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i roi adborth i gydweithwyr sy'n hwyluso grwpiau fforymau eraill i ddiweddarau gwefan allanol CNC yn rheolaidd gyda chofnodion cyfarfodydd.
 - Trafodwyd hyn gyda chydweithwyr sy'n ymwneud â fforymau eraill. Mae rhai fforymau yn cyfarfod ddwywaith/dair y flwyddyn yn unig. Nid yw'r wefan yn cael ei diweddarau'n awtomatig gyda'r cofnodion oherwydd bod angen iddynt gael eu hadolygu a'u derbyn gan bob grŵp cyn cyhoeddi. Felly, mae mymryn o oedi wrth ddiweddarau'r wefan.
- PG02 Rhagfyr: Bronwen Martin, CNC i rannu cyfeiriad e-bost 'Llethrau Llon' i aelodau gysylltu â'r tîm yn uniongyrchol gyda'u hadborth a'u hawgrymiadau ar gyfer y gynhadledd arfaethedig.
 - Bydd y gynhadledd deuddydd o hyd yn cael ei chynnal ym mis Mehefin 2023. Mae diweddariad ysgrifenedig wedi'i gynnwys ym Mhapur Diweddarau WLMF a rannwyd cyn y cyfarfod. Nid yw'r agenda digwyddiadau wedi'i chwblhau eto ond mae'n debygol o gynnwys siaradwyr gwadd, cyflwyniadau ac efallai sesiwn ymarferol ar yr ail ddiwrnod. Mae manylion cyswllt tîm Llethrau Llon wedi'u cynnwys yn y diweddariad a dylai aelodau gysylltu os hoffent gymryd rhan neu ofyn am wybodaeth ychwanegol.
 - Dywedodd Huwel Manley, CNC fod y digwyddiad wedi cael ei hysbysebu mewn cyhoeddiad Cyswllt Ffermio a oedd yn annog pobl i fynychu, ac roedd hefyd yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r Swyddog Tân ar secondiad i CNC. Soniodd Rachel fod Haf Leyshon, CNC wedi mynychu cyfarfod diweddar o Fwrdd LFA NFU Cymru ac y bydd erthygl yn cael ei chyhoeddi yn Farming Wales.

12. Dywedodd Bronwen ei bod hefyd wedi derbyn diweddariad ysgrifenedig ynglŷn â gwaith Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac y bydd yn rhannu'r manylion ar ddiwedd y cyfarfod.

PG 01 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i rannu diweddariad ysgrifenedig ar gyfer Afonydd ACA.

Eitem 3 Diweddariad ar Afancod

13. Ymunodd Liz Halliwell, Sarah Wood, a Kate Collins, CNC â'r cyfarfod i roi diweddariad byr ar lafar am afancod. Mae afancod yn rhan o'n bywyd gwyllt brodorol a gall eu gweithgareddau fod yn bwysig gan helpu i greu cynefinoedd cyfoethog ac amrywiol a gallant wella amrywiaeth rhywogaethau mewn afonydd ac ardaloedd gwlyptir. Efallai y gallant helpu i leddfdu llifogydd hefyd, ond rydyn ni hefyd yn cydnabod y gall eu gweithgareddau gael effeithiau annymunol.

14. O ran sefyllfa gyfreithiol ailgyflwyno neu ryddhau afancod fe'u rhestrir yn Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad sy'n ei gwneud yn drosedd rhyddhau afancod i'r gwyllt neu ganiatáu iddynt ddianc. Felly, mae angen trwydded o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad i ryddhau afancod i'r gwyllt, a CNC yw'r awdurdod priodol ar gyfer rhoi trwyddedau o'r fath. Byddai rhyddhau afancod heb drwydded neu dorri amodau trwydded yn drosedd - yr heddlu yw'r awdurdod gorfodi, a nhw sy'n gyfrifol am

ymchwilio i unrhyw droseddau honedig, ond byddai CNC yn darparu cyngor ac arweiniad.

15. Pan fydd CNC yn derbyn cais am drwydded, rôl CNC yw asesu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac ystyried effeithiau ailgyflwyno afancod ar fywyd gwyllt a defnydd tir presennol, ymhlith pethau eraill. Efallai y byddwn yn gwrthod cais os na ddarparwyd digon o wybodaeth, neu pe bai effaith annerbyniol ar fywyd gwyllt arall a defnydd tir. Wrth ystyried ceisiadau am drwydded ar gyfer unrhyw ailgyflwyno neu drawsleoli cadwraethol, mae CNC yn asesu'r cynigion yn erbyn 'Guidelines for Reintroductions and Other Conservation Translocations' Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur (IUCN). Mae'r rhain yn ganllawiau helaeth sy'n ystyried ystod eang o faterion sy'n ymwneud â gweithredu prosiectau trawsleoli cadwraeth yn briodol.
16. O ran y sefyllfa bresennol yng Nghymru i afancod, mae prosiect Lloc Afancod Cors Dyfi ger Machynlleth. Yn 2021, cyhoeddodd CNC drwydded i Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn i ryddhau uchafswm o chwe afanc i le caeedig yng Ngwarchodfa Natur Cors Dyfi. Cynhaliodd CNC asesiad helaeth o'r cais hwnnw am drwydded ac edrychodd ar bethau fel yr effaith ar safleoedd statudol, cymhwysedd y staff sy'n rhan o'r prosiect, rheoli'r gwaith a diogelwch y safle, beth fyddai'n digwydd pe bai afancod yn dianc neu'n cael eu rhyddhau'n ddamweiniol, risgiau, strategaeth ymadael a monitro. Cyn rhoi'r drwydded, roedd y drwydded ddrafft arfaethedig a'r ddogfen benderfynu yn destun ymgynghoriad pedair wythnos i roi cyfle i aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau. Cafodd CNC nifer sylweddol o ymatebion a ystyriwyd cyn cyflwyno'r drwydded - mae'r prosiect hwnnw bellach ar y gweill.
17. O ran cynigion rhyddhau i'r gwyllt, deallir bod Ymddiriedolaeth Natur Cymru wedi datblygu prosiect ar gyfer rhyddhau afancod i'r gwyllt yn nalgylch afon Ddyfi. Fodd bynnag, nid yw CNC wedi derbyn unrhyw gais am drwydded gan yr Ymddiriedolaeth Natur ar hyn o bryd, ond rydym ni ar ddeall eu bod yn bwriadu cyflwyno un. Os/pan fydd CNC yn cael cais am ryddhau i'r gwyllt, byddwn yn cynnal asesiad manwl i sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau'r IUCN. Byddem hefyd yn ystyried yr effeithiau ar fywyd gwyllt presennol, defnydd tir ac yn ymgynghori ag ystod eang o arbenigwyr technegol o fewn CNC. Byddai CNC hefyd yn ymgynghori â Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol ynghylch yr asesiad risg o glefydau, sy'n rhan allweddol o ystyried prosiect trawsleoli. Unwaith y bydd hynny wedi'i gwblhau, byddai CNC yn ymgynghori'n allanol i sicrhau bod pob parti sydd â buddiant yn cael cyfle i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai helpu i benderfynu ar y cais hwnnw. Byddai hyn yn cael ei gyfleu drwy'r cyfryngau perthnasol a byddai'r holl wybodaeth ategol yn cael ei chyhoeddi ar wefan CNC ynghyd â manylion am sut i ymateb. Mae hyn yn unol â'n datganiad cyfranogiad y cyhoedd, sydd ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ([CNC: Cyfranogiad y cyhoedd](#)).
18. Cychwynnodd arolwg gan Brifysgol Caer-wysg ddiwedd mis Chwefror 2023. Mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal ar ran Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i edrych ar agweddau ar ailgyflwyno afancod yng Nghymru. Rydym ni ar ddeall mai nod yr arolwg yw deall agweddau'r cyhoedd tuag at afancod yng Nghymru yn well a'u bod am ddefnyddio hynny fel rhan o'u cais i CNC ar gyfer prosiect Dyfi pan gaiff ei gyflwyno.
19. Bu Liz yn trafod safbwynt CNC a Llywodraeth Cymru ar afancod yng Nghymru. Yn 2015, cytunodd Bwrdd CNC ar ddatganiad sefyllfa eang, a oedd yn cydnabod y buddion y gall afancod eu cael, ond hefyd yn cydnabod y risgiau a'r pryderon posibl

sydd gan rai rhanddeiliaid. Yn fwy diweddar, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi nodi y byddai sefyllfa bolisi gliriach ar afancod yng Nghymru yn fuddiol. O ganlyniad, gofynnwyd i CNC weithio gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r gwaith o ddatblygu safbwynt o'r fath. Y bwriad yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ffurfioli sefyllfa bolisi ar afancod yng Ngwanwyn 2023. Mae'r adolygiad o dystiolaeth ar y gweill, ac mae CNC yn ystyried effeithiau posibl afancod yn amgylchedd Cymru ac o fewn polisi amgylcheddol a'r fframwaith cyfreithiol. Mae CNC yn defnyddio'r adolygiadau tystiolaeth a gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban sy'n ddau adolygiad eithaf helaeth o dystiolaeth. Mae CNC yn eu hadolygu i asesu sut y gallai'r dystiolaeth honno fod yn berthnasol mewn cyd-destun Cymreig a hefyd nodi unrhyw fylchau tystiolaeth neu dystiolaeth newydd. Ar ôl ei gwblhau, bydd CNC yn darparu'r adolygiad tystiolaeth i Lywodraeth Cymru.

20. Soniodd Liz am gyfeiriad yn y wasg yn ddiweddar at CNC yn cynnal 'astudiaeth ddichonoldeb' ar ailgyflwyno afancod yng Nghymru. Eglurodd Liz nad yw hynny'n wir ac efallai ei fod wedi camddechongli'r gwaith adolygu tystiolaeth y mae CNC yn ei wneud.
21. Gofynnodd Bernard Griffiths, FUW, pe bai'r Ymddiriedolaeth Natur yn gwneud cais i ryddhau afancod, a fyddai'n cael ei gymeradwyo, a bod yr afancod hynny wedyn yn mynd ymlaen i ddifrodi coed ar hyd tir Network Rail sy'n cael effaith ariannol ar eu busnes, ai'r Ymddiriedolaeth Natur fyddai'n gyfrifol am hynny. Dywedodd Liz unwaith y bydd anifail wedi ei ryddhau i'r gwyllt, ei fod yn wyllt ac nad yw'n eiddo i unrhyw un mwyach. Er mwyn i CNC allu asesu cais i ryddhau i'r gwyllt yn llawn, dywedodd Sarah Wood y byddai angen iddynt ystyried sefyllfaoedd o'r fath lle mae perygl o ddifrod. Byddai CNC yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth Natur nodi'n glir beth fyddai'n digwydd yn y sefyllfaoedd hynny a chael trafodaethau gyda Network Rail a rhanddeiliaid eraill. O ran yr union sefyllfa gyfreithiol, dywedodd Sarah y byddai angen i ni egluro hynny. Byddai ymgynghoriad rhanddeiliaid CNC ar gais am drwydded yn rhoi cyfle i wneud sylwadau ar faterion o'r fath.
22. O ran rhyddhau yn lloc Dyfi, gofynnodd Hedd a yw CNC yn cadw llygad barcud i sicrhau nad yw'r afancod yn dianc a beth yw'r goblygiadau os ydynt yn dianc. O ran rhyddhau i'r lloc, dywedodd Sarah fod y cais hwnnw wedi ystyried y risg o ddianc. O dan amodau'r drwydded, bydd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal i sicrhau nad yw'r afancod wedi dianc (ynghyd ag ystyried eu dal eto os byddant yn dianc). Mewn perthynas â rhyddhau i'r gwyllt, byddai cynllun rheoli yn cynnwys ystyried pa mor bell y byddent yn mynd. Mae'r Gweinidog wedi dweud yr hoffai weld fframwaith polisi ar gyfer afancod yng Nghymru a dyna'r gwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar ôl i ni gynnal adolygiad o'r dystiolaeth. Rydyn ni'n cydnabod y gall fod angen rhyw fath o ddull rheoli ar afancod yn y gwyllt, ac mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr opsiynau hynny fel rhan o'r blaengynllun. O ran afancod mewn llociau, esboniodd Liz fod cyfres glir o amodau trwydded sy'n rhaid cydymffurfio â nhw (e.e., gwiriadau, rhoi gwybod am achos o ddianc, strategaeth dal eto ac ati) ac mae'n rhan hollbwysig o'r cais.
23. Gofynnodd Bernard a allai Liz neu Sarah ddod yn ôl i'r grŵp hwn gyda diweddariad ar y sefyllfa gyfreithiol o ran pwy fyddai'n atebol pe bai afanc a ryddhawyd yn achosi difrod, gan ei bod yn ymddangos pan fydd yr Ymddiriedolaeth Natur yn gwneud cais i ryddhau afancod, eu bod nhw'n gwybod bryd hynny bod yna bosibilrwydd o ddifrod.

PG 02 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i weithio gyda Sarah Wood a Liz Halliwell ynghylch eglurhad o'r sefyllfa gyfreithiol am atebolrwydd am unrhyw ddifrod a achosir yn sgil rhyddhau afancod.

24. Gofynnodd Hedd am bolisi CNC ar ailgyflwyno unrhyw rywogaeth gan fod sôn am ailgyflwyno rhywogaethau eraill (e.e. eryr môr ac eryr euraid). Dywedodd Sarah Wood y byddai angen trwydded gan CNC i ailgyflwyno'r rhywogaethau hyn cyn unrhyw achos o ryddhau. Rydym ni'n gorfod dilyn proses glir os cawn gais i ailgyflwyno sy'n seiliedig ar fframwaith trawsleoliadau cadwraeth yr IUCN. Mae CNC yn ystyried pob cais ar sail teilyngdod. Un o brif rannau canllawiau trawsleoli cadwraeth yr IUCN yw ymgysylltu a sicrhau bod y dichonoldeb cymdeithasol yn cael ei ystyried oherwydd gallai effeithio ar bobl - felly rydym ni'n casglu barn y cyhoedd fel rhan o ymgynghoriad.
25. Dywedodd Dennis Matheson, TFA ei bod yn destun pryder bod afancod yn cael eu rhyddhau i lociau oherwydd y risg o ddianc. Mae adroddiadau bod afancod wedi achosi difrod sylweddol iawn i dir amaethyddol yn Northumberland a'r Alban. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad, ond rhaid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r flaenoriaeth; rhyddhau rhywogaethau diflanedig neu amaethyddiaeth. Atgoffodd Dennis y grŵp ei fod yn cynrychioli'r sector ffermio tenant ac ni allai tenantiaid ganiatáu rhyddhau afancod, dim ond y landlord, ac felly pwy fyddai'n cael unrhyw iawndal wedyn.
26. Dywedodd Rachel eu bod wedi gofyn am ddiweddariad ers sbel. Yn ddiweddar, gwelodd NFU Cymru erthygl yn y cyfryngau yn dilyn cyfarfod Bwrdd CNC a ysgogodd Rachel i e-bostio CNC gyda chais arall am ddiweddariad. O ran gwaith CNC gyda Llywodraeth Cymru, gofynnodd Rachel sut y gall rhanddeiliaid a rheolwyr tir fod yn rhan o'r broses honno oherwydd mai nhw gaiff eu heffeithio fwyaf gan ryddhau rhywogaethau. Hefyd, beth yw'r cynlluniau ar gyfer ymgysylltu (e.e. ymgynghoriad cyhoeddus).

Dywedodd Rachel nad yw rhai o ymatebion CNC i'r cwestiynau ar y dull trwyddedu yn teimlo'n arbennig o strategol. Mae angen i ni ddeall beth fydd y strategaeth gyffredinol gan fod y dull trwyddedu fel arfer wedi'i gefnogi gan gorff anllywodraethol sydd wedi cael cyllid prosiect. Yn aml, does dim sicrwydd ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd pan ddaw'r prosiect hwnnw i ben, sydd felly'n gadael rheolwyr tir i ddelio â'r canlyniadau. Hoffem ddeall beth fydd y polisi, ac mae angen sicrwydd arnom y bydd mecanweithiau ar waith ar gyfer rheoli (waeth beth yw statws rhywogaeth) wrth symud ymlaen. O ran trwyddedu, dywedodd Sarah Wood fod CNC mewn lle adweithiol yn hytrach na lle strategol ar hyn o bryd, ond bod trafodaethau wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru. Mae CNC wedi cael cais clir iawn gan y Gweinidog a'r adolygiad o dystiolaeth yw'r cam cyntaf yn y broses honno. O safbwynt y camau nesaf, mae hynny'n dal i gael ei drafod, ond hoffem weld y dystiolaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n gosod y fframwaith strategol ar gyfer afancod gydag ymgysylltiad a thrafodaeth ehangach ar hynny.

27. Dywedodd Huwel fod CNC yn rheolwr tir hefyd ac o safbwynt gweithrediadau, rydym hefyd yn cynnal ymgynghoriadau mewnol ar drwyddedau gan nad yw yn y lle iawn bob amser, ac mae angen inni ystyried pethau eraill fel perygl llifogydd. Mae CNC hefyd yn cymryd rhan mewn achosion o ryddhau rhywogaethau eraill yn anghyfreithlon (e.e. racŵn-gi) ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r heddlu i ymchwilio i adroddiadau, helpu i ddal ac 'ailgartrefu' i safle trwyddedig priodol. Eglurodd Sarah Wood fod rôl CNC ar gyfer racŵn-gŵn yn wahanol gan eu bod yn rhywogaeth estron oresgynnol.

Mae gennym rôl drwyddedu hefyd, ond mae hefyd yn ymwneud â'r camau rydym ni ac eraill yn eu cymryd i gael gwared ar y rhywogaethau hynny os byddwn yn canfod eu bod wedi cael eu rhyddhau. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn wahanol i'r gwaith mae CNC yn ei wneud ar afancod.

28. Dywedodd Ruth fod y gwaith strategol yn bwysig iawn. Er bod yr adolygiad tystiolaeth yn ymwneud yn benodol ag afancod, mae gan CNC ddiddordeb yn y darlun ehangach ar ailgyflwyno hefyd ac eisiau gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i edrych ar faterion a chyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ailgyflwyno rhywogaethau a'u rheoli yn gyffredinol.
29. Eglurodd Sarah y camau y mae CNC yn eu cymryd gyda Llywodraeth Cymru i gyrraedd sefyllfa lle mae fframwaith polisi clir ar gyfer afancod yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r adolygiad tystiolaeth yn ymarfer mewnol i adolygu'r hyn mae Natural England a NatureScot wedi'i wneud. Hefyd, rydym ni'n cysylltu ag arbenigwyr mewnol i ddeall a yw'r dystiolaeth honno'n berthnasol i Gymru. O ran y camau nesaf, ni allwn roi unrhyw eglurhad eto, ond rydym ni'n deall yn llawn yr angen i eraill gymryd rhan mewn trafodaethau. Dywedodd Rachel y byddai NFU Cymru yn hoffi cofnodi pryderon ynghylch datblygu sefyllfa bolisi. Fe'i disgrifiwyd fel darn mewnol o waith rhwng CNC/Llywodraeth Cymru, ond nid yw'n gynhwysol iawn ar hyn o bryd ac rydym ni'n gofyn eto trwy ba fecanwaith y bydd rhanddeiliaid (sy'n rheoli 80% o'r tir yng Nghymru) yn rhan o hynny. Eglurodd Sarah Wood fod CNC yn cyflwyno asesiad tystiolaeth sy'n adeiladu ar yr hyn y mae Natural England a NatureScot wedi'i wneud ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adeiladu'r broses ar gyfer datblygu'r polisi. Awgrymodd Sarah y gallai roi adborth ar ffurf y camau nesaf yn nhermau ymgysylltu a datblygu'r polisi. Soniodd Ruth fod modd bwydo negeseuon y grŵp hwn hefyd i'r sgwrs gyda Llywodraeth Cymru.

PG 03 Mawrth: Sarah Wood, CNC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf yn dilyn yr adolygiad tystiolaeth ar gyfer afancod.

Eitem 4 Natur a Ni

30. Ymunodd Russell De'Ath, CNC â'r cyfarfod i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am Natur a Ni a'r camau nesaf.
31. Mae CNC wedi bod yn cynnal sgwrs genedlaethol sy'n dod i fwcl trwy broses Cynulliad y Dinasyddion. Dechreuodd y sgwrs genedlaethol fis Chwefror diwethaf ac erbyn mis Mai, roedd dros 50,000 o bobl wedi ymweld â'r wefan a 3000 a mwy o unigolion wedi rhannu barn trwy arolwg ar-lein a chyfres o weithdai a grwpiau ffocws. Roedd canfyddiadau'r ymarfer cyntaf yn nodi pryderon am yr amgylchedd naturiol, sut roedden nhw'n dymuno i ddyfodol natur yng Nghymru edrych a sut mae angen i gymdeithas newid er mwyn cyrraedd y nod honno. Y tri phrif bryder oedd: dirywiad/difodiant anifeiliaid a phlanhigion, y newid yn yr hinsawdd, a llygredd mewn afonydd, llynnoedd, a dŵr daear. Mae'r tair thema hyn yn rhan ganolog o Gynllun Corfforaethol newydd CNC.
32. Crynhowyd y canfyddiadau mewn fideo sydd ar wefan [CNC: Natur a Ni](#). Roedd naw thema allweddol yn deillio o'r gwaith hwnnw: sut rydym ni'n siopa, sut rydym ni'n teithio, sut rydym ni'n defnyddio ein hynni a'n dŵr yn ein cartrefi ein hunain, sut rydym ni'n defnyddio ein coetiroedd, sut rydym ni'n defnyddio mannau gwyrdd, sut rydym ni'n

prynu bwyd, sut rydym ni'n mynd ar wyliau ac yn treulio ein hamser hamdden, sut rydym ni'n rheoli ein tir a beth rydym ni'n ei wneud gyda'n gwastraff. Yna datblygwyd naw datganiad ar gyfer sut y gallai'r dyfodol edrych - datganiadau a brofwyd mewn ail rownd o ymgysylltu wedyn. Roeddem am gynnwys rhai o'r lleisiau nad oeddem wedi clywed ganddynt hyd yma, a buom yn gweithio gyda'r undebau amaeth a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhai grwpiau ffocws yn y Sioe Fawr. Hefyd, ceisiwyd cynnwys busnesau a chynnal grwpiau ffocws. I ddechrau, roedd llai o ymatebion gan gynulleidfa iau a chymunedau du ac ethnig leiafrifol. Roeddem am sicrhau ystod fwy amrywiol o safbwyntiau a nodi'r meysydd o gytuno ac anghytuno.

33. O ran canfyddiadau, y meysydd lle cafwyd y consensws mwyaf oedd ynglŷn â'n ffordd o fyw yn y dyfodol - o safbwynt sut rydym ni'n siopa, yn defnyddio ein mannau gwyrdd a'r gymdogaeth leol, newid ein ffordd o brynu bwyd a sut rydym ni'n ymdrin â gwastraff ac ailgylchu. Roedd y datganiadau lle nad oedd cymaint o gonsensws yn ymwneud â theithio, defnyddio ynni a dŵr, ein defnydd o goetiroedd a rheoli tir.
34. Gofynnwyd i Gynulliad y Dinasyddion fyfyrion ar yr wybodaeth a gasglwyd hyd yma ac ateb 'sut beth yw'r dyfodol pan fydd cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd?'. Dangosodd Russell rai darluniau a grëwyd gan artist graffig i gyfleu rhai o'r trafodaethau gydol y sesiynau. Yn ystod y broses hon rydym ni wedi llywio'r sgwrs i ganolbwyntio ar gyfraniad pobl a'r hyn y gall cymdeithas ei wneud i lywio newidiadau a'n ffordd o fyw. Mae Cynulliad y Dinasyddion yn cyfarfod ar 18 Mawrth i helpu i lunio'r weledigaeth o amgylch y naw datganiad ymhellach.
35. Mae gan CNC ddiddordeb mewn canfod sut gallan nhw hwyluso mwy o'r sgysiau hyn ledled Cymru, gyda'r nod o ddenu rhagor i gyfrannu a chymryd rhan (e.e. datblygu offer sy'n gallu hwyluso sgysiau, grymuso dinasyddion a thynnu sylw at rai o'r heriau allweddol sy'n ein hwynebu ni i gyd ar draws sectorau gwahanol). Dywedodd Russell eu bod am glywed gan aelodau'r Fforwm am adnoddau penodol y gellir eu datblygu i gefnogi a galluogi sgysiau gyda rheolwyr tir a ffermwyr o safbwynt: beth mae'n ei olygu iddyn nhw, sut beth yw newid a sut bydd y newid yn gweithio? Unwaith y bydd yr adnoddau wedi'u datblygu a'r Cynulliad yn cynnig gweledigaeth derfynol, dywedodd Russell y byddwn yn awyddus i gasglu ymatebion, yn unigol ac ar y cyd. Nid gweledigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yw hon, ond un sydd wedi ei chreu a'i chynhyrchu gan bobl Cymru. Bydd CNC yn helpu i hyrwyddo gweledigaeth Natur a Ni dros y misoedd nesaf. Rydym ni'n ddiolchgar dros ben am y gefnogaeth hyd yma, yn enwedig gan grwpiau ffocws yr undebau amaeth a'r CFfl.

PG 04 Mawrth: Aelodau i gysylltu â Russell De'Ath, CNC ynglŷn â datblygu adnoddau penodol a fyddai'n helpu i gefnogi a galluogi sgysiau gyda rheolwyr tir a ffermwyr.

36. Dywedodd Rachel fod rhai o aelodau NFU Cymru wedi mynychu gweithdy yn y Sioe Fawr y llynedd. O edrych ar y naw thema a'r ffaith mai dyma weledigaeth y dyfodol i Gymru, mae'n ymddangos bod amwysedd yn dal i fodoli oherwydd bod modd siapio a dylanwadu ar rai pethau ond bod pethau eraill yn ymwneud ag ymddygiad unigol. Mae'n teimlo'n gysyniadol, mae angen i chi fod yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu a'i wneud yn berthnasol i'r gynulleidfa. Esboniodd Russell mai gweledigaeth ar y cyd yw hon a bod angen gweithio gyda'n gilydd o Fôn i Fynwy. Mae'r syniad o ddod o hyd i agweddau cyffredin yn bwerus iawn ond mae angen cydnabod ein gwahaniaethau hefyd.

37. Roedd Bernard yn cael trafferth gweld sut mae hyn yn wahanol i'r broses a ddatblygodd nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r newidynnau mesuredig a ddefnyddir yn y Ddeddf honno i benderfynu a yw'r rheini wedi'u cyflawni. Dywedodd Russell fod y cyd-destun wedi newid ers hynny a bod CNC wedi gweithio'n agos iawn gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n awyddus i ddefnyddio hyn i lywio'r saith mlynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar sgysiau am yr argyfyngau natur a hinsawdd yn benodol. Gwyddom hefyd o adroddiad blaenorol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mai nod 'Cymru gydnerth' a nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang', yw'r rhai a ddeallir leiaf o safbwynt rôl y sector cyhoeddus ac eraill.
38. Dywedodd Rachel y byddai'n fuddiol gweld sut mae hyn yn cyd-fynd â'r jig-so ehangach a gofynion Deddf yr Amgylchedd, SoNaRR, y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal ac ati. Sut mae'n mynd i ddylanwadu ar bethau eraill oherwydd nid yw'n gwbl glir ar hyn o bryd. Dywedodd Ruth fod hyn yn rhan o gael cymaint o bobl i gymryd rhan a deall eu rôl eu hunain yn ogystal â'r cyfleoedd sydd ar gael.
39. Holodd Rhys am y datganiad ar reoli tir a'r diffyg consensws. Dywedodd Russell mai'r datganiad ynglŷn â rheoli tir yw 'mae'r tir o'm cwmpas ac yng nghefn gwlad yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu ystod o fwydydd gwahanol ond hefyd yn cael ei reoli er budd cymunedau. Mae ffermwyr yn gwneud hyn i leihau effeithiau llifogydd a sicrhau bod ein hafonydd a'n moroedd yn glir o lygredd. Mae mwy o amrywiaeth yn y dirwedd, gwahanol fathau o dda byw, ardaloedd mwy coediog gyda gwahanol fathau o goed'. Mae'n ddatganiad eithaf annelwig mewn rhai ffyrdd, er enghraifft nid yw'n sôn am y math o dda byw neu'r math o goed, ond mae'n creu darlun o sut y gallai'r tir fod yn newid ac yn esblygu. Mae'r sylwadau gan y gymuned ffermio eisiau rhagor o fanylion am sut mae hyn yn edrych.
40. Dywedodd Zoe fod hyn yn rhywbeth y mae'r Fforwm yn debygol o ddychwelyd ato wrth iddo esblygu. Rhaid i ni beidio â chael effaith negyddol ar ein cymunedau, ein hiaith a'n heconomi yng Nghymru ac mae hwn yn waith pwysig iawn.

PG 05 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu copi o gyflwyniad Russell De'Ath, 'Natur a Ni' ynghyd â dolen i'r wefan a manylion cyswllt.

Eitem 5 Diweddariadau CNC

41. Dosbarthwyd Papur Diweddaru'r Fforwm cyn y cyfarfod. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a dod i'r cyfarfod gyda chwestiynau.
42. Soniodd Ruth am waith parhaus CNC gyda'r Gweinidog ynghylch archwiliad dwfn ar fioamrywiaeth. Ar hyn o bryd maen nhw'n datblygu'r cynllun gweithredu ac yn penderfynu pwy sy'n gwneud beth o fewn y cynllun hwnnw.
43. Soniodd Ruth fod Cynllun Corfforaethol CNC wedi cael ei grybwyll yn gynharach. Mae'r gwaith rydym ni wedi bod yn ei wneud yn fewnol ac yn allanol wedi helpu i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd. Mae disgwyl iddo fynd gerbron Bwrdd CNC y mis hwn i gael ei gymeradwyo ac yna bydd rhaglen i'w gyflwyno'n fewnol.
44. Efallai fod rhai aelodau wedi bod yn rhan o'r ail Uwchgynhadledd Afonydd ACA gyda'r Gweinidogion. Mae CNC yn gwneud gwaith parhaus ar y cynllun gweithredu. Hefyd, mae gan CNC raglen fewnol ar Afonydd ACA sy'n cefnogi'r gwaith hwnnw.

45. Mae CNC wrthi'n cwblhau ein Rhaglen Waith Gyfalaf. Rydym wedi bod yn cynnal rhaglen amlflwyddyn gydag arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi llu o bethau gwahanol ar draws yr agenda Rheoli Adnoddau Naturiol.
46. Mae CNC hefyd wrthi'n cyflwyno rhywfaint o waith grant ychwanegol o amgylch y Rhaglen Mawndiroedd, gyda rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y Papur Diweddar. Bydd rownd gystadleuol newydd yn cael ei chyhoeddi'n fuan.
47. Bydd CNC yn datblygu'r Rhaglen Grant newydd ar gyfer pum mlynedd nesaf y Cynllun Corfforaethol. Bydd CNC yn siarad â phobl yn allanol ac yn fewnol i weld sut beth ddylai'r rhaglen honno fod a'r strategaeth o'i chwmpas.
48. Dywedodd Dav Letellier, CNC y bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fod yn barod ar gyfer y cynllun o'r diwrnod cyntaf. Maen nhw'n defnyddio dull cydgynhyrchu ac mae CNC yn cynghori ac yn cyfrannu tuag at y cynllun. Mae CNC yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod ni hefyd yn barod ar gyfer diwrnod un o safbwynt adnoddau i sicrhau y gallwn alluogi a hwyluso pobl i fod yn rhan o'r cynllun.
49. Soniodd Rachel am y diweddariad ysgrifenedig ar yr Adolygiad Strategol o Daliadau, sy'n dweud bod CNC wedi cyflwyno sawl gwelliant i'n cynigion codi tâl yng ngoleuni'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad. Gofynnodd Rachel a allai CNC gadarnhau a yw unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â chynlluniau sy'n effeithio ar ffermio. Dywedodd Ruth y byddai'n ymchwilio i hyn. Dywedodd Rachel y bu yna sôn hefyd am gyfarfod gyda'r rhanddeiliaid i fynd drwy'r ymgynghoriad ac unrhyw welliannau, ond mae pethau fel petaen nhw wedi tawelu ers hynny. Mae llawer iawn o ddiddordeb yn yr ymgynghoriad penodol hwn a'r gyfradd enfawr o gynnydd a gynigir.

PG 06 Mawrth: Ruth Jenkins, CNC i ddarganfod a yw unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig yn yr Adolygiad Strategol o Daliadau yn gysylltiedig â chynlluniau sy'n effeithio ar ffermio.

Diweddariad ar y pwynt gweithredu uchod yn ystod y cyfarfod: Nododd Ruth y canlynol -

Mae'r holl gynigion gan gynnwys unrhyw addasiadau wedi'r ymgynghoriad gyda'r Gweinidog i benderfynu - rydym ni'n disgwyl hynny oddeutu 24 Mawrth fan bellaf. Ar y sail bod penderfyniad yn cael ei wneud bryd hynny, byddwn wedyn yn cyhoeddi ein dogfennau adborth ar yr ymgynghoriad yn ystod yr wythnos yn cychwyn 27 Mawrth a fydd yn hysbysu rhanddeiliaid am y taliadau y bwriadwn eu codi ar gyfer 2023/2024 ac yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau rydym wedi'u gwneud ar ôl yr ymgynghoriad.

50. O ran y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, soniodd Huwel fod CNC yn paratoi i gyflawni dros y misoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys recriwtio staff ar draws gweithrediadau a gaiff eu rheoli gan un tîm yng Nghymru i ddechrau (e.e. un pwynt cyswllt). Cadarnhaodd Rachel fod diweddariad ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yng nghyfarfod Is-Grŵp y Fforwm yn ddiweddar. Yn dilyn hynny, mae NFU Cymru wedi ysgrifennu at CNC a Llywodraeth Cymru am botensial memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Mae pryder am gymhlethdod y gofynion cadw cofnodion o fewn y rheoliadau a chaniatawyd naratif o 'fydd y rhan fwyaf o ffermwyr ddim yn gweld unrhyw newid' i ddatblygu. Fodd bynnag, ni allwn danbrizio maint yr her i sicrhau bod miloedd o fusnesau fferm yn cydymffurfio o safbwynt cadw cofnodion gwaith papur. Mae'r llythyr a

anfonwyd at CNC a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r dull a gaiff ei fabwysiadu o ganlyniad i'r cytundeb lefel gwasanaeth hwn.

Eitem 6 Diweddariadau gan yr FUW / NFU Cymru / CFFl Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

51. **FUW:** Dywedodd Bernard Griffiths, FUW eu bod wedi bod yn gweithio ar geisio cyflwyno gwelliannau i'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i gydnabod pwysigrwydd cadernid economaidd a chynaliadwyedd yn y diwydiant amaeth.

Mynychodd yr FUW ail Uwchgynhadledd Ffosffad Llywodraeth Cymru i edrych ar atebion cydweithredol i ACA Afonydd sy'n methu yng Nghymru gyda'r nod o alluogi datblygwyr i adeiladu cartrefi newydd yn y dalgylchoedd hyn. Mae'r modelu yn awgrymu bod amaethyddiaeth yn cyfrannu at hyn, ond mae gan amaethyddiaeth yr atebion i rai o'r problemau hefyd. Gofynnwyd i'r holl randdeiliaid yno gofrestru ar gyfer y cynllun gweithredu, fel y gwnaeth yr FUW. Neithiwr, roedd rhaglen ar y teledu yn digalonni rhywun gan ei bod yn ymwneud mwy â chynhyrfu'r dyfroedd heb unrhyw dystiolaeth. Ers 2017, mae Is-Grŵp y Fferwm wedi bod yn cydweithio i ddod o hyd i atebion ac mae llawer o sefydliadau bellach wedi cofrestru ar gyfer cynllun gweithredu'r Uwchgynhadledd Ffosffadau.

Aeth FUW i gyfarfod y grŵp clefyd (Chalara) coed ynn Cymru yn ddiweddar hefyd ac mae'n ymddangos bod canllawiau ar y gweill. Unwaith eto, fe wnaethom ofyn am gefnogaeth i reolwyr tir glirio coed ynn heintiedig ac roedd awgrym y gallai rhywbeth ddod drwy'r Cynllunio Ffermio Cynaliadwy. Hefyd, aethom i achlysur lansio Bwrdd a Siarter Tanau Gwyllt Cymru.

Mae aelodau FUW wedi tynnu'n sylw at fater sy'n wrthdaro rhwng Rheoliadau'r Cynllun Draenio Cynaliadwy (SDCau) a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn ein tyb ni. Mae hyn yn oedi'r broses gynllunio oherwydd nad yw Awdurdodau Lleol yn deall y gwrthdaro rhyngddynt. Mae ffermwyr yn cael eu gorfodi i fynd drwy broses ymgeisio SuDS sy'n cynyddu costau ac yn gohirio ceisiadau am grantiau. Mae'r FUW wedi ysgrifennu at CNC a Llywodraeth Cymru am ein bod yn credu bod angen egluro i Awdurdodau Lleol. Diolchodd Dav i Bernard am y llythyr, bydd ymateb yn cael ei ddarparu yn fuan. Esboniodd Dav fod sawl sefydliad yn rhan o hyn a bydd angen ystyried sut i fwrw ymlaen â'r mater.

52. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel Lewis-Davies fod gan NFU Cymru ffrydiau gwaith tebyg iawn i FUW. Mae'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn flaenoriaeth allweddol ac mae consensws cyffredinol ynghylch yr angen i'r pumed amcan economaidd hwnnw gyd-fynd â'r gwir ddiffiniad o gynaliadwyedd, yn economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Rydym ni hefyd yn gwrthio am welliannau i gefnogi newydd-ddyfodiaid yn benodol. Mae angen dull adrodd o fewn y Bil i ystyried lefelau cynhyrchu bwyd a chynhyrchiant amaethyddol, o ystyried yr heriau presennol i ddiogelwch bwyd bydeang. Hefyd, mae angen inni gefnogi'r angen am gynllun cymorth ariannol amlflwyddyn fel un o ofynion y Bil. O ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, rydym wedi cyflwyno barn ar y cynigion amlinellol. Ar hyn o bryd, rydym ni'n ymwneud yn helaeth â'r gweithgorau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig ar dir comin, newydd-ddyfodiaid, a thenantiaethau. Mae'n rhaid i'r haen gyffredinol weithio i bob ffermwr yng Nghymru, waeth beth yw eu deiliadaeth tir.

Cyfrannodd NFU Cymru at waith ffosffad hefyd. Rydym ni wedi cyflwyno ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun trwyddedu NVZ a chroesawyd hyn gan ein haelodau, ond mae angen dull syml i wneud cais amdano. Cefnogwyd ein hymateb gan dros 1,400 o ymatebion drwy gyfrwng offeryn ar-lein a ddatblygwyd gan NFU Cymru, sy'n dangos cryfder y teimladau ar y mater hwn.

Ar hyn o bryd, rydym ni'n ymateb i gais am dystiolaeth ar drawsnewidiad cyfiawn, sy'n berthnasol iawn i ardaloedd gan fod llawer o gamau gweithredu newid hinsawdd yng Nghymru yn digwydd mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, rydym ni'n sylwi bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar dargedau adnewyddadwy a bod y dyddiad cau fis nesaf.

Diolchodd Rachel yn bersonol i Zoe; dywedodd ei bod wedi bod yn bleser cydweithio â hi a'i bod yn gwerthfawrogi ei hymrwymiad i waith y Fforwm a'r Is-Grŵp. Awgrymodd Rachel os yw CNC a Llywodraeth Cymru eisiau astudiaeth achos da iawn o SMNR ar waith, yna dylent edrych ar Is-Grŵp WLMF ar Lygredd Amaethyddol sydd wedi cyflawni llawer yn ei ddyddiau cynnar.

53. **CFfl Cymru:** Bu'n rhaid i Lee Pritchard, CFfl Cymru adael y cyfarfod cyn yr eitem hon.

54. **Confor:** O safbwynt SuDS, dywedodd Tim Kirk, Confor ei bod hi'n siomedig iawn clywed am y gymhariaeth â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Mae'r arolwg creu coetiroedd ar agor am dair wythnos yn unig ac rydym ni'n dal i fod yng nghanol tymor plannu prysur lle nad oes gan unrhyw amser i ymdrin â chasglu data ychwanegol.

55. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson fod y ffocws presennol wedi bod ar y Gweithgor Tenantiaeth a'r Gweithgor Tir Comin. Trafododd Dennis gymhlethdodau'r materion dan sylw gyda'r ddau grŵp ond dywedodd bod rhywfaint o gytundeb rhwng yr aelodau ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg na fydd unrhyw newidiadau a diwygiadau i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r Gyfraith Tenantiaeth yn cael eu gweithredu erbyn cyflwyno'r cynllun newydd, sy'n golygu y bydd rhaid cael mesurau dros dro os yw tenantiaid yn mynd i allu cymryd rhan yn y cynllun newydd neu gynllun deuol efallai. Bu nifer fawr o gyfarfodydd ond sefydlwyd y grwpiau ar ôl cyhoeddi cynigion amlinellol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Mae TFA wedi'u cynrychioli yn yr Uwchgynhadledd Ffosffad, dywedodd Dennis fod angen ystyried gwaith Is-Grŵp y Fforwm a pheidio â'i ddyblygu oherwydd mae'n ymddangos bod mwy o grwpiau'n cael eu sefydlu ac yn mynd dros yr un hen bethau pan mae angen integreiddio llawer o'r gwaith.

Soniodd Dennis iddo glywed rhaglen radio ddiddorol yn ddiweddar yn trafod amddiffynfeydd arfordirol. Soniodd hefyd am gyfarfod ychydig flynyddoedd yn ôl yn Aberystwyth a oedd yn cynnwys edrych ar gynllun 50 mlynedd o'r hyn fyddai'n digwydd i amddiffynfeydd arfordirol gyda newid hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr - credwyd mai'r cynllun fyddai codi morglawdd newydd ymhellach wrth y môr yn hytrach na chodi'r morglawdd sydd yno'n barod yn uwch. O dan reolau'r UE ar y pryd, dywedodd Dennis y byddai'n rhaid creu cynefin newydd yn lle'r un a gollwyd, heb unrhyw ystyriaeth o gwbl i ddeiliadaeth y tir, ac ai'r tenantiaid neu'r perchnogion a oedd yn gyfrifol. Roedd y rhaglen radio yn trafod yr un peth am ardal i'r gogledd o Aberystwyth, lle'r oedd cynllun

i ddadrestu tref neu bentref y Friog/Fairborne a gadael i'r môr gymryd drosodd, sy'n swnio braidd yn frawychus. Dywedodd Dennis fod hyn yn cysylltu â'r ymgynghoriad sydd ar waith ar gefnu ar arglawdd Tan Lan i'r gogledd o Lanrwst a gadael i'r tir hwnnw orlifo - mae TFA yn ymwneud â'r cynllun hwnnw gan nad oes unrhyw ystyriaeth o gwbl i ddeiliadaeth y tir yno, oherwydd os oes unrhyw iawndal, yna dylai fynd i'r sawl sy'n ffermio'r tir - ac yn y gorffennol, y tiffeddianwr oedd hwnnw. Dywedodd Huwel Manley fod enghreifftiau Dennis yn benodol i safle, ond byddai'r rhan fwyaf o hynny yn y Cynllun Rheoli Traethlin a fersiynau diwygiedig ohono yn y dyfodol. Mae CNC newydd lansio adolygiad ymgynghori ar reoli llifogydd, ond mae'r ffocws yn ymwneud ag amddiffyn cartrefi mewn perthynas â chyllid Llywodraeth Cymru. Mae wedi bod yn weithdrefn neu'n bolisi gan Lywodraeth Cymru erioed lle mae cartrefi yn hytrach na thir amaethyddol yn flaenoriaeth o ran amddiffyn rhag llifogydd. Yn anffodus, mae tir amaethyddol yn llai o flaenoriaeth. Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin wedi bod yn ddogfen hirsefydlog ac mae tua deng mlwydd oed, neu'n hŷn efallai, sy'n amlinellu lle mae strategaeth 'cynnal y llinell' o amgylch arfordir Cymru a lle mae strategaeth clirio a reolir. Argymhellodd Huwel mai yn y ddogfen hon y dylai pobl chwilio am y gosodiad polisi cyffredinol ar gyfer amddiffyn arfordiroedd Cymru, gan gynnwys pa ardaloedd fydd yn cael eu hamddiffyn â chyllid, a pha ardaloedd sydd i'w hildio i'r môr yn anffodus. Awgrymodd Huwel y gellid ychwanegu'r pwnc hwn at agenda yn y dyfodol.

PG 07 Mawrth: Bronwen Martin, CNC i drafod gyda chydweithwyr CNC am ychwanegu materion a rheolaeth arfordirol at agenda yn y dyfodol.

Eitem 7 Unrhyw fater arall

56. Diolchodd Dennis i Zoe am bopeth y mae wedi'i wneud i'r grŵp hwn ac Is-Grŵp y Fforwm. Nid dim ond Cadeirio'r cyfarfodydd mae hi; mae hi hefyd yn gweithio y tu ôl i'r llenni i baratoi ar eu cyfer a'n helpu ni i fynd i'r cyfeiriad iawn fel un. Dywedodd Dennis ei fod yn ddiolchgar iawn bod cynrychiolaeth o'r sector tenantiaeth gan ei fod yn sector leiafrifol o fewn amaethyddiaeth. Hefyd, roedd Zoe yn wych wrth ganiatáu iddo ddweud ei ddweud mewn cyfarfodydd yn enwedig gan ei fod yn deialu i mewn iddynt. Diolch yn fawr a phob hwyl i'r dyfodol.
57. Dywedodd Bernard diolch wrth Zoe - fe ddechreuoch chi fynychu'r cyfarfodydd hyn yn 2016 a chadeirio'r un cyntaf yn 2017. Hwn fydd cyfarfod rhif 19 neu 20 y Fforwm i Zoe ei gadeirio. Mae Zoe bob amser wedi arwain y cyfarfodydd yn gadarn ond yn deg ac yn gwbl hyddysg am eitemau'r agenda. Roedd Bernard yn cofio Zoe yn cadeirio rhai cyfarfodydd tra'i bod yn dioddef symptomau COVID, a gyda'i braich mewn plastr ar un achlysur. Diolchodd Bernard yn fawr iawn i Zoe ar ran yr holl randdeiliaid, gan ddymuno pob lwc ac iechyd da iddi.
58. Fe wnaeth Huwel ddiolch i Zoe hefyd, gan ddweud mai dim ond picied mewn a mas i'r cyfarfodydd hyn y mae pan nad yw Martyn P Evans, CNC ar gael. Soniodd Huwel fod Martyn yn ymddeol ddiwedd mis Mai a bydd rhywun newydd yn cymryd yr awenau oddi wrth Martyn fel un o fynychwyr parhaol cyfarfodydd y Fforwm.
59. Diolchodd Zoe i bawb a dywedodd y byddai'n colli pawb. 8 Mai yw dyddiad gadael swyddogol Zoe. Dywedodd Rhys ei fod wedi cael archwiliad fetio llwyddiannus a'r cam nesaf yw cael ei gyhoeddi'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru, ond ei fod yn ansicr am yr amserlen. Dymunodd Zoe yn dda i Rhys, gan ddweud y byddai'r grŵp hwn yn parhau i ffynnu, yn cael trafodaethau gwych, ac yn parhau i helpu i lunio dyfodol Cymru mewn

ffordd gadarnhaol. Diolchodd Zoe i Bronwen a Marc sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni i gadw pethau ar y trywydd iawn.

60. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Diwedd y cyfarfod